	1: Understanding & documenting plant diversity	Target 1 Distribution maps of all lower plants and fungi in Wales should be accessible and up to date and mapped at at least the 10km square level. By assigning decadal date classes to the mapped records, trends in distribution should be apparent.	<p>Current:</p> <p>Action 1a Through the Welsh Local Record Centre Partnership ensure data exchange agreements are in place and data is exchanged between the WLRCS and the national lower plant and fungi recording schemes.</p> <p>Action 1b Identify data gaps and stimulate field survey to fill gaps.</p> <p>Short term:</p> <p>Action 1c Develop a list of projects and seek funding to ensure all Welsh lower plant and fungi records are effectively collated from the many disparate sources in which they currently lie to create distribution maps of Welsh lower plants, available via the NBN Gateway.</p>	Specialist societies	Specialist societies	Welsh Local Record Centre Partnership	Ongoing

Objective	Target	Action	PLINKC lead	PLINKC member involvement	Non PLINKC agency & government partners	Time period
	Target 2 Detailed information to be readily available to permit the localisation of sites for all Welsh lower plant species of conservation concern and for changes in their site condition to be measured.	<p>Short term:</p> <p>Action 2a Seek funding from central government and the statutory agencies and the support of voluntary bodies and specialist societies to develop an annual programme of surveys to update or complete a database of detailed site information that will readily allow the sites in Wales for all lower plant and fungi species of conservation concern to be identified and to detect trends in population size.</p> <p>Medium term:</p> <p>Action 2b Identify an organisation(s) or institution(s) with the capacity to maintain databases of localities of lower plant and fungi species of conservation concern and secure long term funding for the project(s).</p>	Specialist societies and CCW	Specialist societies and CCW	JNCC, WAG & Voluntary Conservation Bodies	Ongoing
	Target 3 Wales to contribute resources and expertise to ensure the creation and regular review of Red Data Books/threat lists/species of conservation concern lists that recognise the importance of Welsh lower plant and fungi species at international and national (UK) level. This information to be readily available publicly.	<p>Current:</p> <p>Action 3a Support the British Lichen Society in a review of the British lichen Red Data List and the British Mycological Society in its publication of a Red Data List of macrofungi.</p> <p>Short term:</p> <p>Action 3b Encourage the establishment and maintenance of standing committees at a UK level to develop and regularly update Red Lists of lower plants and fungi with the resources to maintain a world wide web information service and the publication of data as required.</p>	BMS & BLS	CCW, BLS & BMS	Specialist societies NMW & CCW	2009-11

Objective	Target	Action	PLINKC lead	PLINKC member involvement	Non PLINKC agency & government partners	Time period
	Target 4 Develop and maintain a public list of lower plant and fungi species of conservation concern at a Welsh national and vice-county level.	<p>Short term:</p> <p>Action 4a Demonstrate the feasibility of such lists by the creation of a Welsh national list for liverworts and 3 vice-county lists.</p> <p>Medium term:</p> <p>Action 4b Develop Welsh national lists for all bryophytes, lichens, macrofungi, rusts, smuts, charophytes and the larger marine algae and produce vice-county lists for these groups for half the vice-counties of Wales.</p>	Plantlife & BBS	Plantlife & BBS	2009	
	2: Conserving plant diversity	<p>Target 5 Contribute to the identification and conservation of species of principal importance for the conservation of biodiversity in Wales, offering advice at each BAP review and on the priorities for survey and research through the three yearly BAP reporting process.</p> <p>Short term:</p> <p>Action 5a Promote the conservation of Section 42 species by, where possible, grouping them into habitats and the consequent development of grouped species habitat action plans, and assist in the development, review and implementation of action plans for individual BAP lower plant and fungi species.</p> <p>Medium term:</p> <p>Action 5b Keep under review the current status of lower plants and fungi in Wales to inform future reviews of Section 42 and help establish conservation and funding priorities.</p>	CCW	All members	WAG 2009-11	Ongoing

Objective	Target	Action	PLINKC lead	PLINKC member involvement	Non PLINKC agency & government partners	Time period
	Target 6 Review statutory protection afforded to Section 42 species and other species of conservation concern by SSSI and NNR designations and remedy any concerns through consultation with CCW and JNCC. Review other forms of protection offered to these species (e.g. ownership of sites by organisations that include species conservation in their objectives) and ensure that appropriate management is in place. Ensure a programme of regular condition assessment is in place for all statutory sites and other significant areas not offered statutory protected.	<p>Short term:</p> <p>Action 6a Review the SSSI series, the citations, management plans and features sheets to ensure lower plant and fungi species of conservation concern are adequately covered. Encourage CCW to remedy any shortcomings, particularly by assisting in the identification of qualifying features.</p> <p>Medium term:</p> <p>Action 6b Encourage CCW to develop a common standards monitoring programme for lower plant and fungi species of conservation concern on all relevant statutory sites.</p> <p>Action 6c Encourage all non-statutory conservation organisations to review their management of sites for lower plant and fungi species of conservation concern and have in place some form of regular common standards monitoring.</p>	CCW & Plantlife Specialist Societies	CCW & Plantlife Specialist Societies	CCW, Plantlife & Specialist Societies	2009-11

Objective	Target	Action	PLINKC lead	PLINKC member involvement	Non PLINKC agency & government partners	Time period
	Target 7 Promote the survey and description of habitats of high nature conservation interest for their lower plants and fungi.	<p>Short term:</p> <p>Action 7a Draw up a list of important niche habitats poorly covered by existing phytosociological analyses with, if possible, the characteristic species of lower plants and fungi they support.</p> <p>Action 7b Encourage CCW and the other country agencies to agree a timetable to complete the phytosociological analysis of existing relevée data on lower plant dominated epilithic communities.</p> <p>Medium term:</p> <p>Action 7c Develop and implement a survey programme prioritised by the findings of Action 7a to describe communities of fungi and lower plants not covered by the NVC.</p> <p>Action 7d Continue to press for and support the revision and updating of the guidelines for the notification of SSSIs and the amendment of SSSI citations to take account of the many newly appreciated special lower plant features and press for the designation of sites where gaps exist.</p>	<p>Specialist Societies</p> <p>CCW, NMW, NT & SNP.</p> <p>NMW & Specialist Societies</p> <p>CCW, NMW & Specialist Societies</p>	<p>Specialist Societies, CCW, NMW, NT & SNP.</p> <p>CCW & Specialist Societies</p> <p>SNH, NE & JNCC</p>	<p>Specialist Societies & CCW</p>	<p>2010</p> <p>2009</p> <p>2011-15</p> <p>2010-15</p>

Objective	Target	Action	PLINKC lead	PLINKC member involvement	Non PLINKC agency & government partners	Time period
	Target 8 Promote the sympathetic management of key habitats for lower plants and fungi by issuing guidance and advice.	<p>Short term:</p> <p>Action 8a Use the niche list generated under action 7a to commence the production of management booklets for lower plants and fungi based on their habitats and niches.</p> <p>Action 8b Ensure that lower plant & fungal interests are incorporated into Habitat Action Plans (HAPS).</p> <p>Medium term:</p> <p>Action 8c Draw up a list of specific site problems, e.g. Rhododendron, invasive aquatic plants, and identify SSSIs where advice is available but is not resulting in positive management.</p> <p>Action 8d Contribute to training of site managers in conserving lower plants and fungi, using key habitat characters or habitat / species indicator methods.</p>	Plantlife & CCW	Specialist Societies		2010-15
		<p>Short term:</p> <p>Action 9a Provide technical advice as required to assist in the identification of critically damaging air pollution levels for statutory sites important for lower plants and fungi.</p> <p>Action 9b Keep under review knowledge of the impact of new or changing water pollutants that may impact on lower plants and fungi and bring such information to the attention of the regulatory authorities</p>	CCW & Plantlife	All PLINKC members	EA & FC	2011
	Target 9 Encourage the Environment Agency to continue to seek ways of reducing atmospheric pollution levels and improve their ability to accurately assess the impact of developments on lower plants and fungi.	<p>Short term:</p> <p>Action 9a Provide technical advice as required to assist in the identification of critically damaging air pollution levels for statutory sites important for lower plants and fungi.</p> <p>Action 9b Keep under review knowledge of the impact of new or changing water pollutants that may impact on lower plants and fungi and bring such information to the attention of the regulatory authorities</p>	CCW & Specialist Societies	All members of PLINKC	EA & LA	Ongoing

Objective	Target	Action	PLINKC lead	PLINKC member involvement	Non PLINKC agency & government partners	Time period
	Target 10 Minimise the impact of land-use changes on lower plants and fungi by the provision of advice to local planning authorities and Welsh Assembly Government.	Medium term: Action 10a Ensure that the information available from completing actions 2 and 3 above (i.e. the identification of species of conservation concern and their distribution) is employed by local record centres to screen planning applications and all other land use changes brought to their attention. Informed decisions can then be taken.	CCW & Specialist Societies	CCW & Specialist Societies	LAs, WAG, FC, EA & WLRC Partnership	Ongoing
3: Using plant diversity sustainably	Target 11 Provide data and input into codes of conduct to inform sustainable harvesting of lower plants for local and commercial use.	Short term: Action 11a Continue to raise awareness of issues through liaison with wildlife crime officers. Medium term: Action 11b Conduct research to investigate the impact of moss gathering and seek ways of ensuring sustainable collection of mosses with a view to developing a certification scheme.	CCW	All PLINKC members	Plantlife& BBS FC & Forestry certifying authorities	2009-10 2010
		Action 11c Produce a code of conduct for bryophyte collection with Forestry Commission, with provisions for monitoring as part of the licensing agreement. Action 11d Distribute code of conduct to other landowners permitting or considering permitting moss collection on their land. Action 11e Keep under review the scale of commercial collection of fungi in Wales and any work underway elsewhere that helps assess the sustainability of such harvesting.	Plantlife & BBS	Plantlife& BBS	Plantlife& BBS FC	2011 Ongoing

Objective	Target	Action	PLINKC lead	PLINKC member involvement	Non PLINKC agency & government partners	Time period
4: Promoting education & awareness about plant diversity	Target 12 The establishment of a permanent mycologist post in NMW	<p>Short term:</p> <p>Action 12a Approach senior management at NMW or NBGW to promote a new mycologist post.</p> <p>Action 12b Use launch of strategy to raise issue of lack of taxonomic expertise up political agenda.</p>	To be determined	BMS & BLS WAG		2009
	Target 13 Identify gaps in education and public awareness programmes and support action to fill them through instituting links with partners. This will include extending the Scottish apprentice schemes into Wales and to cover all lower plant and fungi groups.	<p>Short term:</p> <p>Action 13a Set up three year contract posts for lower plants and fungi conservation officer and education officer based with an appropriate organisation.</p> <p>Action 13b Promote specialist society field trips as first step for identification training.</p> <p>Action 13c Set up and maintain a PLINKC web page of opportunities & events of interest across Wales.</p> <p>Action 13d Set up equipment pools for training workshops housed at appropriate field centres.</p> <p>Action 13e Include 'lower plant and fungus awareness' as part of Best Practice and Water Framework Directive training for practitioners.</p> <p>Medium term:</p> <p>Action 13f Set up local bryology, lichen and fungus groups across Wales.</p> <p>Action 13g Work in partnership to ensure taxonomic elements are included in further & higher education courses.</p>	Plantlife	All PLINKC members Specialist Societies and NGOs Specialist Societies Plantlife All PLINKC members All PLINKC members Specialist Societies & NMW Specialist Societies	Universities Continuing Education Depts Ongoing Ongoing Ongoing Universities EA NMW NMW & WBP Specialist Societies Specialist Societies	2010 2010-12 Ongoing 2010-12 Ongoing 2010-15

Objective	Target	Action	PLINKC lead	PLINKC member involvement	Non PLINKC agency & government partners	Time period
	Target 14 Continue to input on relevant policy issues in planning, climate change, water quality, agri-environment & non-native invasive species.	<p>Short term:</p> <p>Action 14a React to priority policy issues as necessary</p> <p>Action 14b Develop good communications with agencies to provide them with appropriate advice on ecological impact when assessing planning applications and in implementing and reviewing agricultural and forestry support mechanisms, agri-environment schemes, water quality enhancement and publicly funded land drainage works.</p>	All PLINKC members	All PLINKC members	WAG, FC, EA & LAs	Ongoing
	Target 15 Ensure full and coordinated delivery of this strategy through the appointment of an implementation officer fully funded by appropriate organisations within and outside PLINKC membership.	<p>Short term:</p> <p>Action 15a Develop a funding proposal for a Strategy Implementation Officer to take to appropriate organisations.</p>	Plantlife & CCW	Plantlife & CCW		2010-11

Strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer cadwraeth planhigion is a ffyngau yng Nghymru 2009-2015

**Ray Woods & Plant Link Cymru
2009**

Cyhoeddwyd gan Plantlife International ar ran Plant Link Cymru

ISBN 1-904749-93-3

© Plantlife International 2009

a national
museum
amgueddfa
wales
cymru



**British Mycological
Society** promoting fungal science



PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP



Cyfeiriad: Woods, R.G. (2009). Strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer cadwraeth planhigion is a ffyngau yng Nghymru. Plantlife International. Salisbury

[Yn Saesneg: Woods, R.G. (2009) Strategy and action plan for the conservation of lower plants & fungi in Wales. Plantlife International, Salisbury].

Mae Plant Link Cymru (PLINKC) yn fforwm o fudiadau sy'n gweithio dros gadwraeth planhigion a ffwng a'u cynefinoedd yng Nghymru. Mae'r aclodau yn cynnwys cyrff sydd heb fod yn rhai llywodraethol, ynghyd â chymdeithasau gwyddonol arbenigol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

Aelodau Plant Link Cymru yn 2007

Plantlife Cymru (cadeirydd)
'Botanical Society of the British Isles'
'British Bryological Society'
'British Lichen Society'
'British Mycological Society'
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
Amgueddfa ac Orielau Cenedlaethol Cymru
Natur Cymru
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Gellir cysylltu â Plant Link Cymru yn y cyfeiriad isod:
Plantlife Wales
d/o Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Maes y Ffynnon
Ffordd Penrhos
BANGOR LL57 2LQ
E-bost: trevor.dines@plantlife.org.uk
ffôn: +44 (0)1248 385445




Y 'Rose Spindles' *Clavaria rosea*

Diolchiadau

Dymuna PLINKC ddiolch i'r canlynol am eu cymorth a'u cefnogaeth: Ian Bonner, Tim Blackstock, Andy Jones, Alan Hale, Sam Bosanquet, Matt Sutton, Rod Gritten, Shelley Evans, Helen Buckingham, James Robertson a Ray Tangney. Bu Liz Fleming-Williams, Martin Butler ac Alan Hale yn ddigon caredig i gyfrannu lluniau er mwyn ategu rhai yr awdur ei hun.

CYNNWYS

Crynodeb	2
Cyflwyniad	2
Amcan 1: Deall a chofnodi'r amrywiaeth o blanhigion	5
Amcan 2: Gwarchod amrywiaeth planhigion	10
Amcan 3: Defnyddio amrywiaeth planhigion mewn ffordd gynaliadwy	15
Amcanion 4 & 5: Hybu addysg ac ymwybyddiaeth ynglŷn ag amrywiaeth planhigion a chynyddu gallu i weithredu yn y maes hwn	16
Cyfeiriadau	19
Crynodeb o'r Gweithrediadau	21



*Am wlad o'i maint,
mae'n bosib mai
Cymru sydd â'r
amrywiaeth fwyaf
drwy'r byd o
blanhigion is a ffyngau
a gofnodwyd hyd yma.*

CRYNODEB

Mae Cymru'n cynnal amrywiaeth ryfeddol o blanhigion is (planhigion di-fasgwlaidd) a ffyngau. Er bod Cymru, fel gwlad, ond yn cyfrif am 10% o holl arwynebedd Ynysoedd Prydain mae 75% o'r rhywogaethau mwsogl a llysiau afu a gofnodwyd yn Mhrydain yn tyfu yma, ynghyd â 74% o'r holl rhywogaethau cen ac 80% o'r holl rhywogaethau o ffyngau'r gawod.

Mae'r strategaeth ar gyfer gwarchod cen, mwsogl, llysiau afu a ffyngau yng Nghymru yn amlinellu **15** targed a **45** o weithrediadau y dylid eu cwblhau erbyn 2015. Mae'r strategaeth, yn bwysig iawn, yn asesu'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn cyrraedd y targedau ac yn nodi a yw'r gwahanol weithrediadau yn rhai sy'n flaenoriaeth tymor byr, tymor canolig neu dymor hir. Mae'n rhestr uchelgeisiol ond mae modd ei chyflawni ac o lwyddo, bydd camau breision ac arwyddocaol wedi cael eu cymryd yn yr ymgais i warchod y planhigion hyn yng Nghymru.

Mae'r strategaeth hon yn gyfraniad cenedlaethol pwysig tuag at gyflawni targedau Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru, yr *UK Biodiversity Action Plan*, a tharged 2010 yr *EU Sustainable Development Strategy a'r Plant Diversity Challenge* – sef ymateb y DU i'r strategaeth fyd-eang ar gyfer cadwraeth planhigion (y 'Global Strategy for Plant Conservation'). Mi wnaeth y Strategaeth Fyd-eang, yn ddigon priodol, ystyried pwysigrwydd arbennig planhigion fel elfen o fioamrywiaeth y ddaear – nid yn unig y planhigion fasgwlaidd hynny sy'n hawdd i'w gweld a'u hadnabod ond hefyd y ffyngau, cennau a'r planhigion is fel mwsogl, llysiau afu ac algâu. Maen nhw'n hanfodol ar gyfer cynnal prosesau o fewn ein hecosystemau ac i gynnal strwythur ein pridd. Maen nhw hefyd yn cynnig budd i ddynoliaeth ar ffurf bwyd, dillad a meddyginaethau.

Cynhyrchwyd y strategaeth hon gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Plant Link Cymru (PLINKC), sydd ag arbenigwyr ar gen, mwsogl, llysiau afu, ffyngau, algâu dŵr croyw a morol ymhlið ei aelodau yn ogystal â mudiadau an-llywodraethol blaenllaw.




Y cap cwyr *Hygrocybe spadicea*



Y cen *Cladonia macilenta*



Y ffwng *Lichenomphalia umbellifera*



Y migwyn *Sphagnum papillosum*

CYFLWYNIAID

Tarddiad y strategaeth hon oedd y Cytundeb ar Amrywiaeth Bywydegol (y '**Convention on Biological Diversity**' (CBD)), a ddeilliodd o Gynhadledd y Ddaear yn Rio yn 1992.

Rhoddodd y Llywodraeth ei sêl bendith swyddogol ar y Cytundeb yn 1994. Rhoddodd hyn hwb newydd i'r gwaith o warchod bioamrywiaeth, drwy'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ar gyfer y DU (yr 'UKBAP').

Yn 2000, daeth **Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy** i rym yn Lloegr a Chymru. Rhoddodd Adran 74 gyfrifoldeb ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried gwarchod amrywiaeth bywydegol wrth ymgymyr â'i waith, yn unol â'r cytundeb uchod. Rhoddodd gyfrifoldeb ar y Cynulliad Cenedlaethol hefyd i gyhoeddi rhestr o rywogaethau a chynefinoedd a ystyrir ganddo (h.y. y Cynulliad) yn rhai sydd o bwysigrwydd pennaf at y diben hwn. Yn 2006 disodlwyd y ddeddf hon gan Adran 42 o Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC). Yn y ddeddf hon rhestrir 132 rywogaeth o blanhigion is a ffyngau a 2 gymuned sydd â chyfoeth o blanhigion is a ffyngau.

Yn 2001, rhoddwyd hwb pellach i'r gwaith o warchod planhigion is pan fabwysiadwyd y **Global Strategy for Plant Conservation** (y 'GSPC'), eto fel rhan o'r CBD. Ymatebodd y DU i'r strategaeth hon drwy gyhoeddi **Plant Diversity Challenge: the UK's response to the Global Strategy for Plant Conservation** (y 'PDC') yn 2004. Mae'r cyhoeddiad hwn wedi rhoi fframwaith ar gyfer y gwaith o warchod planhigion ac mae'r fframwaith yn cael ei ddilyn yn y ddogfen hon.

Yn 2006, ac yn dilyn ymgynghoriad eang, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru **Strategaeth Amgylchedd Cymru**. Ymhlieth y canlyniadau y gobeithiwyd eu cyflawni wrth fabwysiadu'r strategaeth hon oedd atal colledion bioamrywiaeth ac adfer niferoedd, ardaloedd dosbarthiad ac amrywiaeth genetigol rywogaethau; creu amgylchedd cyffredinol sy'n fwy ffafriol i fywyd gwylt a sicrhau bod safleoedd mewn cyflwr ffafriol – o rai sy'n bwysig mewn cyd-destun rhyngwladol i rai sy'n bwysig yn lleol.

Yn 2004, mewn ymateb i'r PDC, gwelodd aelodau Plant Link Scotland bod angen rhoi cyfeiriad i waith cadwraeth planhigion is a ffyngau drwy gael arbenigwyr ar y rywogaethau hyn i lunio strategaeth ar gyfer planhigion is a ffyngau yn yr Alban (SLP&FS). Ystyriwyd y strategaeth hon mor ddefnyddiol gan CCGC nes i'r corff hwnnw roi cyllid i Plantlife er mwyn datblygu dogfen debyg ar gyfer Cymru. Mae'r ddogfen gyfredol hon yn tynnu llawer ar y gwaith cynharach hwn.

Monitro ac adolygu:

Ystyriar hyn o bryd, mai am 6 mlynedd y bydd y strategaeth hon yn para a bydd PLINK yn ei hadolygu'n gyson. Mae'r strategaeth yn ystyried pynciau hirdymor perthnasol ac mae'n cwmpasu'r cyfnod amser o 2008-14, gydag adolygiad bob 2 flynedd. Bydd yr adolygiad cyntaf yn cyd-daro â'r cyfnod y mae gofyn i'r DU adrodd nôl am y cynnydd y mae'n gwneud o safbwyt cyrraedd targed y GE i atal colledion bioamrywiaeth erbyn 2010 (Gothenberg 2001) ac i adrodd yn ystod 2010 ar y gwaith sy'n digwydd yn unol â'r Strategaeth Fyd-eang ar gyfer Cadwraeth Planhigion

Mae **Gweithrediadau** wedi eu penu yn ôl blaenoriaethau cyfredol, rhai tymor byr a thymor canolig. Diffinir rhain fel a ganlyn:

Cyfredol – gweithrediadau sy'n bwysig yn strategol ac sydd, er yn weithrediadau parhaus, yn gofyn am adolygiad cyson a momentwm newydd o bryd i'w gilydd;

Tymor byr – hanfodol/blaenoriaeth uchaf ac angen brys;

Canolig – hanfodol ond yn ganolig o ran blaenoriaeth oherwydd ni all y weithred ddigwydd, yn realistig, o fewn y tymor byr oherwydd cyfyngiadau o ran amser/adnoddau.


Mae'r mecanwaith ar gyfer monitro ac adolygu fel a ganlyn:

- Y sawl sydd wedi ei enwebu i arwain ('ceffyl blaen') i adrodd yn rheolaidd bob 6 mis, yn y cyfarfod PLINK;
- Cesglir yr adroddiadau ynghyd i greu adroddiad blynnyddol ar y we;
- Cesglir yr adroddiadau blynnyddol er mwyn creu adolygiad bob 2 flynedd, gydag argymhellion.

Bioamrywiaeth

Yn 1994, mabwysiadwyd **Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU** (yr 'UKBAP') gan y Llywodraeth. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i 'bob corff cyhoeddus a'r sawl sy'n dal swyddogaeth ... i hybu cadwraeth bioamrywiaeth'. Gan ei fod yn rhoi cryn bwyslais ar Gynlluniau Gweithredu ar gyfer Rhywogaethau a Chynefinoedd (y 'SAPs' & 'HAPs'), roedd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU yn fod i dynnu ynghyd yr asiantaethau Llywodraethol, fel Cyngor Cefn Gwlad Cymru, yn ogystal â mudiadau anlywodraethol a chymdeithasau arbenigol ar gyfer cen, bryoffytiau, ffyngau ac algâu.

Rhai o'r Rhywogaethau BAP Cymreig



Cen wy wedi sgramblo *Fulglesia fulgens*



Cen rhuban blewog *Heterodermia leucomela*



Gwallt Llio *Teloschistes flavicans*



Llysiau rhuban *Pallavicinia lyellii*



Tafod y ddaear gwyrddfrown *Microglossum olivaceum*



Capan cwyr *Hygrocybe spadicea*

Mae'r UKBAP wedi llwyddo'n dda i godi proffil planhigion is. Ond nid yw wedi bod yn ddi-drafferth chwaith. Yr anhawster mwyaf difrifol yw diffyg sgiliau yn y DU. Nid oes digon o bobl a'r wybodaeth angenrheidiol ynglŷn â phlanhigion is, na'r amser i'w hastudio, er mwyn cyflawni'r cynlluniau BAP yn effeithiol. Dangosodd yr adolygiad o BAP yn 2007 mai gwirfoddolwyr yn bennaf sy'n ysgwyddo'r baich o fynd i'r afael â drafftio cynlluniau gweithredu newydd ar gyfer rhywogaethau. Ar y cyfan, nid oes gan y cyrff statudol aelodau staff gyda chymwysterau priodol, a chan fod cyn lleied bellach o aelodau staff o fewn mudiadau fel amgueddfeydd a phrifysgolion ni allant gynnig llawer o gymorth o gwbl.

AMCAN I:

DEALL A CHOFNODI'R AMRYWIAETH O BLANHIGION

Er mwyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i gyrrf cyhoeddus fedru cyflawni eu dyeltskyddau statudol i hybu cadwraeth bioamrywiaeth, yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, ac i sicrhau ein bod yn defnyddio'n planed mewn ffordd gynaliadwy, mae'n bwysig ein bod ni'n gallu asesu ardrawiad posib, neu ardrawiad gwirioneddol ein gweithgareddau ar fioamrywiaeth. Mae'n hanfodol i borthi unrhyw broses asesiad amgylcheddol gyda gwybodaeth ynglŷn â dosbarthiad rhywogaethau a chymunedau, ynghyd â gwybodaeth am y bygythiadau y maen nhw'n eu hwynebu ar lefel ryngwladol, genedlaethol a lleol.

1.1 Basau data dosbarthiad

Mae'n bwysig iawn bod cyrff cyhoeddus a'r gymuned gadwraeth wirfoddol yn gallu canfod yn rhwydd unrhyw ddata ynglŷn â'r lleoedd lle mae planhigion is a ffyngau dan fygythiad yn tyfu. Os am asesu'n fanwl pa rywogaethau sydd dan fygythiad, rhaid casglu data am ddosbarthiad yr holl rywogaethau ar lefel leol, genedlaethol a ryngwladol. Rhaid i'r data hefyd fod yn ddigon da i allu sefydlu tueddiadau o ran dosbarthiad dros amser. Rhaid cael gwybodaeth fanwl hefyd am safleoedd er mwyn gall adnabod safleoedd pwysig a lleoliad rhywogaethau sy'n peri pryder o safbwyt cadwraethol. O fewn Cymru mae 4 canolfan gofnodi lleol wedi dechrau casglu data.

Disgrifir isod y data ychwanegol sydd ar gael ar gyfer bob grŵp o rywogaethau.

Bryoffytiau

Mae Canolfan Cofnodion Bywydegol (BRC) yn dal bas-data cynhwysfawr o gofnodion ac mae atlas o'r holl rywogaethau Prydeinig wedi cael ei gyhoeddi (Hill et al. 1991, 1992 & 1993). Mae cynlluniau ar y gweill i baratoi fersiwn ddiwygiedig. Mae'r 'Threatened Bryophytes Database' (y 'TBDB') yn dal gwybodaeth fanwl am safleoedd (o fewn Recorder 2002) sy'n bwysig ar gyfer bryoffytiau sydd dan fygythiad. Mae'r bas-data hwn yn cael ei gynnal gan Nick Hodgetts ar ran y 'British Bryological Society' (y 'BBS'), y Cyd-bwylgor Cadwraeth Natur (y 'JNCC') a'r asiantaethau o fewn y gwledydd unigol. Mae Alan Hale (yn y Cyngor Cefn Gwlad) yn dal copi o ddata Cymreig y TBDB o fewn Recorder a MapInfo GIS. Mae Porth NBN yn rhoi modd i fynd at fas-data'r BBS a'r TBDB.

Cennau

Mae'r 'British Lichen Society' (y 'BLS') yn cynnal dau fas-data o ddosbarthiad rhywogaethau, un ar lefel 10km sy'n dderbynol o gyflawn (er bod cyfyngiadau ar gategoriâu dyddiad) a bas-data sy'n seiliedig ar safleoedd ac sydd dal wrthi'n cael ei ddatblygu (gyda llwyth anferthol o ddata wrth gefn yn aros i gael ei ychwanegu). Mae mapiau dosbarthiad wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau fel rhan o raglen barhaus (er bod y gwaith ar stop dros dro). Mae bas-data draft ar gael o gennau sydd dan fygythiad yng Nghymru ond mae angen ei adolygu a'i ddiweddar. Mae CCGC yn dal copiâu o fewn Recorder a MapInfo. Mae'r BLS hefyd wedi dechrau rhestru safleoedd nodedig ar gyfer cennau yn ôl cynefin.

Ffyngau

Y Bas-Data o Gofnodion Ffyngau ym Mhrydain ac Iwerddon, sy'n cael ei reoli gan y 'British Mycological Society', yw'r bas-data mwyaf cyflawn yn y DU. Mae'n cynnwys dros 1.5 miliwn o gofnodion. Ond mae diffyg arian yn gosod cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei wneud gyda'r bas-data hwn ac mae hefyd yn cyfyngu ar y gallu i sicrhau ansawdd gwybodaeth. Yng Nghymru mae Nigel Stringer yn cadw bas-data ar wahân ar gyfer ffyngau cawod (y 'rusts') a'r ffyngau penddu (y 'smuts') ac mae bas-data cynhwysfawr o ffyngau yng Ngogledd Orllewin

Cymru yn cael ei gynnal gan Charles Aeron. Yn ddiweddar mae Cymdeithas Grwpiau Ffyngau Prydeinig (yr 'Association of British Fungus Groups') wedi datblygu ei bas-data ei hunan. Ond er hyn, mae nifer fawr o gofnodion ychwanegol yn cael eu dal gan unigolion neu yn gorwedd ar wasgar o fewn sefydliadau ac o fewn llenyddiaeth. Mae Plantlife wedi goruchwyllo'r gwaith o gynhyrchu adroddiad sy'n adnabod Ardaloedd Ffwng Pwysig ym Mhrydain (yr 'Important Fungi Areas in Britain' (Evans et al., 2001)).

Rhawn yr ebol

Mae BRC yn cynnal bas-data ac mae atlas wedi cael ei gynhyrchu (Moore, 1986). Mae adroddiad ar safleoedd nodedig ar gyfer rhawn yr ebol hefyd wedi cael ei gyhoeddi (Stewart, 2004).

Cyhoeddwyd adolygiad o rawn yr ebol yng Nghymru yn 1999 (Stewart 1999) ac mae Alan Hale, yn y CCGC, yn cynnal bas-data cynhwysfawr o gofnodion rhawn yr ebol yng Nghymru i fyny at 2003, o fewn Recorder a Mapinfo. Mae modd mynd at yr olaf hefyd drwy'r porth NBN.

Algâu eraill

Mae rhestr wirio ac atlas o ddosbarthiad gwymon wedi cael ei gynhyrchu (Hardy & Guiry, 2003).

Targed I

Dylai mapiau dosbarthiad o'r holl blanhigion is a'r ffyngau yng Nghymru fod yn hygrych ac yn gyfredol a dylai'r mapio fod wedi digwydd i lefel 10km, fan lleiaf. Drwy briodoli dosbarthiadau dyddiad, fesul degawd, i'r cofnodion map fe ddylai fod yn bosib gweld tueddiadau yn nosbarthiad rhywogaethau.

Cyfrebol

Gweithgaredd 1a

Sicrhau, drwy Bartneriaeth y Canolfannau Cofnodi Cymreig, bod cytundebau yn eu lle i gyfnewid data a bod data yn cael ei gyfnewid rhwng y Canolfannau Cofnodi Cymreig a'r cynlluniau cenedlaethol ar gyfer cofnodi planhigion is a ffyngau.

Gweithgaredd 1b

Adnabod bylchau yn y data a hybu gwaith arolwg maes i'w llenwi.

Tymor byr

Gweithgaredd 1c

Datblygu rhestr o brosiectau a chwilio am arian er mwyn sicrhau bod yr holl gofnodion o blanhigion is a ffyngau yn cael eu casglu'n effeithiol o'r holl wahanol ffynonellau lle maen nhw'n llechu ar hyn o bryd, ac wedyn i greu mapiau dosbarthiad o blanhigion is yng Nghymru a fydd ar gael drwy borth yr NBN.

Gweithred 1d

Adnabod bylchau yn y data a pharhau i wneud gwaith maes i lenwi'r rhain e.e. glaswelltiroedd capiau cwyr a ffyngau mewn coedwigedd deri.

Gweithred 1e

Datblygu basau-data cenedlaethol neu fasau-data lleol ar gyfer planhigion is a ffyngau sydd wedi cael eu hintegreiddio'n dda a sicrhau bod y cyllid ar gyfer y rhain yn ddiogel ac yn ddigonol.



Glaswelltir efo Capiau Cwyrog,
Ffrwdgrech, Powys

Targed 2

Gwybodaeth fanwl i fod ar gael yn rhwydd er mwyn gallu lleoli'r safleoedd hynny yng Nghymru sy'n cynnal yr holl blanhigion is sy'n peri pryder o safbwyt cadwraeth ac er mwyn gallu mesur unrhyw newid yng nghyflwr y safleoedd hyn.

Tymor byr

Gweithred 2a

Chwilio am arian o'r llywodraeth ganolog a'r asiantaethau statudol, ac am gefnogaeth gan gyrrf gwirfoddol a chymdeithasau arbenigol, er mwyn datblygu rhaglen arolwg flynyddol a fydd yn ei gwneud hi'n bosib i ddiweddar neu gwblhau bas-data sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am safleoedd – gyda'r bwriad o'i gwneud hi'n rhwydd adnabod y safleoedd hynny yng Nghymru sy'n cynnal yr holl rywogaethau o blanhigion is a ffyngau sy'n peri pryder o safbwyt cadwraeth ac i adnabod newidiadau a thuediadau ym maint y poblogaethau ar y safleoedd hynny.

Tymor canolig

Gweithred 2b

Adnabod mudiad(au) neu sefydliad(au) sydd â'r gallu i gynnal basau data sy'n cynnwys lleoliadau'r rywogaethau hynny o blanhigion is a ffyngau sy'n peri pryder o safbwyt cadwraeth a sicrhau cyllid yn y tymor hir ar gyfer y prosiect(au).

1.2 Rhestrau a llyfrau Data Coch

Os am warchod bioamrywiaeth yn effeithiol, mae'n hanfodol cael rhyw ffordd o fesur ardrawiad unrhyw ddatblygiad arfaethedig. Mae technegau wedi cael eu datblygu i feintioli lefel y pryer sy'n cael ei greu gan y posibilrwydd o golli poblogaeth o rywogaeth benodol. Drwy ddefnyddio meinu prawf ynglŷn â bygythiad, sydd wedi cael eu cytuno gyda IUCN, mae modd amcangyfrif maint ardrawiad datblygiad ar boblogaethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol o rywogaethau. Ond mae'n ddyddiau cynnar ar y gwaith hwn o safbwyt planhigion is yng Nghymru. Mae rhestrau Data Coch ('Red Data Books' neu 'RDB's') wedi cael eu cyhoeddi, gyda diwygiadau, ar gyfer bryoffytaw ar lefel Ewropeaidd a DU, gyda rhestrau anghyflawn ar gyfer rhai is-siroedd Cymreig. Maent hefyd wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer cennau ar lefel y DU a hefyd ar gyfer rhywfaint ohonynt ar lefel is-sirol ac mae rhestrau hefyd yn bodoli ar gyfer rhawn yr ebol ar lefel y DU.

Yn y pen draw bydd angen Rhestrau Data Coch ('RDLs') ac RDBs ar gyfer ffyngau a llawer o'r grwpiau alga. Mae Rhestr Goch wrthi'n cael ei pharatoi ar gyfer un grŵp ychwanegol o algâu dŵr croyw – sef y desmidau (algâu gwyrrd). Mae darpar-restr o wymon prin wedi cael ei chyhoeddi er mwyn ei thrafod (Brodie et al. 2005). Mae'r British Mycological Society wedi drafftio Rhestr Goch ar gyfer y ffwng Basidiomycete a'r Ascomycete mwy o faint ac mae hon wrthi'n cael ei thrafod.

Er mwyn i'r rhestrau hyn fod yn gredadwy ac bosib i'w hamddiffyn yn y llysoedd ac mewn ymchwiliadau cynllunio cyhoeddus, rhaid iddynt fod yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd gennym ar unrhyw adeg. Rhaid iddynt felly gael eu hadolygu'n gyson fel bod y statws yn adlewyrchu cyflwr cyfredol ein gwybodaeth a rhaid iddynt gael cefnogaeth eang ymhlieth y gymuned fotanegol.

Targed 3

Cymru i rannu adnoddau ac arbenigrwydd er mwyn gallu creu ac adolygu'n rheolaidd y Llyfrau Data Coch/rhestrau bygythiad/rhestrau rywogaethau sy'n peri pryder cadwraethol – a hynny mewn modd sy'n cydnabod pwysigrwydd rywogaethau o blanhigion is a ffyngau yng Nghymru ar lefel genedlaethol (DU) a rhngwladol. Y wybodaeth hon i fod yn hawdd i'r cyhoedd ei chanfod a'i chyrchu.

Cyfredol:

Gweithred 3a

Cefnogi'r 'British Lichen Society' gyda'r gwaith o adolygu Rhestr Goch o gennau Prydeinig a chefnogi'r 'British Mycological Society' gyda'r gwaith o gyhoeddi Rhestr Data Coch o facroffyngau.

Tymor Byr:

Gweithred 3b

Annog pwylgorau sefydlog i gael eu sefydlu a'u cynnal ar lefel DU er mwyn datblygu a diweddar u'n gyson y Rhestrau Coch ar gyfer planhigion is a ffyngau, gyda digon o adnoddau i gynnal gwasanaeth gwybodaeth fydd-eang drwy gyfrwng y we ac i gyhoeddi data fel bo'r angen.

Targed 4

Datblygu a chynnal rhestr gyhoeddus o rywogaethau planhigion is a ffyngau sy'n peri pryer o safbwyt cadwraeth ar lefel genedlaethol ac is-sirol o fewn Cymru.

Tymor byr:

Gweithred 4a

Dangos ymarferoldeb y fath restrau drwy greu rhestr Gymreig genedlaethol ar gyfer llysiâu afu a 3 rhestr is-sirol.

Tymor canolig

Gweithred 4b

Datblygu rhestrau Cenedlaethol Cymreig ar gyfer yr holl fryoffytiau, cennau, macro ffyngau, ffyngau cawod, ffyngau penddu, rhawn yr ebol a'r algâu morol mwy o faint a chynhyrchu rhestrau is-sirol ar gyfer y grwpiau hyn ar gyfer hanner yr is-siroedd yng Nghymru.

1.3 Yr adnoddau a allai fod ar gael i gwrdd â

thargedau Amcan I

Wrth chwilio am adnoddau i gwrdd â'r targedau uchod, rhaid cofio bod llywodraeth y DU wedi cytuno ar y Strategaeth Fyd-eang ar gyfer Cadwraeth Planhigion (y 'Global Strategy for Plant Conservation' (GSPC)). Mae disgwl i'r targedau yn y strategaeth fydd-eang hon gael eu cyflawni erbyn 2010. Mae'r strategaeth a gyflwynir yma ar gyfer planhigion is yn anelu at geisio sicrhau hyn. Wrth gwrdd â'r targedau yn y strategaeth hon, mae Cymru hefyd yn cwrdd â'r holl dargedau yn y GSPC ar gyfer planhigion is. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi llofnodi'r Neges o Malahide ('Message from Malahide' 2004), sef fframwaith ar gyfer cyflawni targed 2010 Gothenburg i atal colledion bioamrywiaeth. Mae'n pwysleisio bod angen, erbyn 2006, sicrhau bod digon o adnoddau ariannol yn cael eu neilltuo ar gyfer ymchwil ym maes bioamrywiaeth ac ar gyfer rhannu canlyniadau ar lefel Ewropeidd a chenedlaethol fel y gallwn sicrhau lefel ddigonol o wybodaeth a chyflawni amcanion.

Mae'r ffynonellau posib o gefnogaeth yn cynnwys y canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy'r gefnogaeth y mae'n rhoi i gyrff fel CCGC, AOCC, CC, AA a sefydliadau addysgiadol, neu'n uniongyrchol oddi wrth yr asiantaethau hynny;
- Mudiadu anllywodraethol – Plantlife, RSPB, YG, WT, arolygon a gomisiynwyd;
- Cymdeithasau arbenigol – BLS, BBS, BMS, BPS – grantiau prosiect;
- Cyngorau ymchwil – NERC, BBSRC;
- Cyllideb ymchwil amaethyddiaeth a choedwigaeth.

AMCAN 2:

GWARCHOD AMRYWIAETH PLANHIGION

2.0 Gwarchod rhywogaethau a chymunedau allweddol o blanhigion is a ffyngau yng Nghymru

Rhoddodd Adran 42 o **Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig** ddyletswydd ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried gwarchod amrywiaeth bywydegol wrth gyflawni ei ddyletswyddau, yn unol â Chytundeb y GU ar Amrywiaeth Bywydegol, ac i gyhoeddi rhestr o rywogaethau a chynefinoedd y mae'r Cynulliad yn eu hystyried yn hynod bwysig ar gyfer y diben hwn. Rhestir 132 o blanhigion is a ffyngau a hefyd 2 gymuned gyda chyfoeth o blanhigion is a ffyngau. Cafodd yr holl rywogaethau yn y rhaglen BAP genedlaethol (y dechreuwyd ei hadolygu nôl yn 2007) a'r Gyfarwyddeb ar Rywogaethau a Chynefinoedd Ewropeaidd eu cynnwys os oedden nhw'n bodoli yng Nghymru ar y pryd (hyd y gwybuwyd), ynghyd â nifer fechan o rywogaethau ychwanegol.

Mae gwaith arolwg 'ad hoc' wedi digwydd ar gyfer rhai o'r rywogaethau hyn, yn cynnwys:

- *Bryum warneum, Hamatocaulis vernicosus, Pallavicinia lyellii, Petalophyllum ralfsi, Cryphaea lamyana, Bartramia stricta, Riccia huebeneriana, Sphagnum balticum, Weissia multicapsularis, Ditrichum plumbicola, Sematophyllum demissum.*
- *Pseudocyphellaria norvegica, Heterodermia leucomela, Cladonia peziziformis, Collema dichotomum, Bacidia incompta, Caloplaca luteoalba, Graphina pauciloculata, Chaenotheca phaeocephala, Biatoridium monasteriense.*
- Y 'Tooth fungi', *Hygrocybe calyptiformis, Hygrocybe spadicea, Microglossum olivaceum, Armillaria ectypa, Piptoporus quercinus, Clavaria zollingeri.*
- *Chara curta, Nitella gracilis, Nitella tenuissima.*

Mae arolygon hefyd wedi cael eu cynnal o fetaloffytu a'r Lobarian, sef y ddwy gymuned sydd wedi eu rhestru yn Adran 42.



Staff CCGC yn cael eu hyfforddi i adnabod y mwsogl BAP *Hamatocaulis vernicosus* ar Dir Stent, Meirionnydd.

Ar gyfer nifer fechan o'r tacsonau hyn mae Adroddiadau Rhywogaethau, sy'n cael eu cynnal gan CCGC a'r Partneriaid Blaen, yn crynhoi data ynglŷn â lleoliad, ynghyd â gwybodaeth am fgythiadau ac argymhellion ynglŷn ag anghenion rheolaeth; mae hyn oll yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael. Os yn bosib, mae'r adroddiadau hyn yn tynnu ar y gwaith ymchwil diweddaraf. Er enghraift, mae'r prosiectau ymchwil ar ffyngau 'dannedd' yn y Macaulay Institute a Phrifysgol Aberdeen, y ffyngau 'draenog' ym Mhrifysgol Caerdydd a glaswelltiroedd capiau cwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth oll yn cynnwys amcan craidd i wella'n dealltwriaeth o ecoleg y rhywogaethau hyn er mwyn gallu rheoli eu cynefin a deall bygythiadau yn well. Mae'r ddealltwriaeth ddyfnach hon yn hanfodol ar gyfer gwaith cadwraeth ar gyfer y grwpiau hyn.

Mae llai o drefn a strwythur yngylch y gweithredu ar gyfer rhywogaethau eraill o blanhigion is a ffyngau sy'n peri gofid o ran eu cadwraeth. Mae JNCC a CCGC wedi dechrau ar lawer o waith defnyddiol i sefydlu cyflwr y rhywogaethau hynny sy'n cael eu gwarchod yn statudol, fel rhan o'r broses o adrodd ar gyflwr SoDdGA a GNC. Mae CCGC wedi dechrau cynhyrchu Adroddiadau Rhywogaethau er mwyn ei gwneud hi'n haws i fonitro a rheoli nodweddion ar SoDdGA sy'n berthnasol i blanhigion is.

Mae llygredd atmosfferig yn parhau i achosi newidiadau andwyol sylweddol, neu fgythiadau difrifol, i rywogaethau o blanhigion is a ffyngau dros rannau helaeth o Gymru. Mae ardrawiad a/neu effaith y fath lygredd ar nodweddion o fewn safleoedd a ddewiswyd o ganlyniad i'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd Ewropeaidd wedi sbarduno adolygiad o'r caniatâd sydd wedi cael ei roi gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer pob gollyngiad. Er bod lefel llygredd sylffwr deuocsid wedi syrthio'n arwyddocaol, mae lefel dyddodion ocsidau nitrogen yn dal i fod ymhell tu hwnt i'r llwyth critigol ar gyfer llawer o gymunedau planhigion. Mae effaith asideiddio a/neu ewtroffeiddiad dŵr croyw ar gymunedau planhigion is sy'n tyfu ar greigiau neu bren yn parhau i fod yn broblem arwyddocaol. Mewn ardaloedd sy'n cael eu ffermio'n arddwys mae ewtroffeiddio yn bryder cynyddol.

Targed 5

Cyfrannu at y gwaith o adnabod a gwarchod rhywogaethau sydd yn hynod o bwysig ar gyfer gwarchod Bioamrywiaeth yng Nghymru. Cynnig cyngor bob tro y bydd adolygiad BAP yn digwydd, a chynnig cyngor ynglŷn â'r blaenoriaethau ar gyfer arolwg ac ymchwil drwy gydol y cylch 3 blynedd o adrodd ar gynnydd mewn perthynas â BAP.

Tymor byr:

Gweithred 5a

Hybu cadwraeth rhywogaethau Adran 42 drwy eu grwpio, lle bo'n bosibl, yn ôl cynefinoedd ac yna i ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer clwstwr o rywogaethau. Hefyd, cynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu, adolygu a gwireddu cynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau unigol o blanhigion is a ffyngau BAP.

Tymor canolig:

Gweithred 5b

Cadw llygad ar statws cyfredol planhigion is a ffyngau yng Nghymru, ac adolygu hyn yn barhaus, er mwyn gallu cyfrannu gwybodaeth at adolygiad o Adran 42 yn y dyfodol ac i helpu'r gwaith o flaenoriaethu o safbwyt cadwraeth ac ariannu.

Targed 6

Ymhlieth y cynefinoedd ar gyfer planhigion is a ffyngau sydd heb fod yn cael eu gwarchod yn ddigon da mewn modd statudol ar hyn o bryd, ond sy'n cael eu cydnabod yn rhai arbennig y mae:

- Cennau a bryoffytiau metallofft ym meysydd mwyn Canolbarth Cymru
- Coedwigoedd cyll mewn ceunentydd sy'n bwysig ar gyfer cennau
- Safleoedd glaswelltir ar gyfer ffyngau
- Safleoedd arfordirol ar gyfer cennau a/neu algâu

Nid yw disgrifiadau SoDdGA o reidrwydd yn rhestru'r holl nodweddion diddorol o safbwyt planhigion is a ffyngau ar hyn o bryd. Mae angen sefydlu bas-data cywir o'r holl nodweddion sy'n cymhwysu safle i gael ei ddynodi, fel bo planhigion is a ffyngau diddorol yn cael eu monitro'n rheolaidd yn unol â phroses fonitro safonol (a chyffredinol) a'u bod hefyd yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau rheolaeth ar gyfer y safleoedd. Mae SoDdGA Eaglebrook Mine yn enghraifft o lle mae angen newid disgrifiad er mwyn cynnwys cennau sy'n bwysig mewn cyd-destun cenedlaethol.

SoDdGA 'Eaglebrook Mine', Ceredigion, safle nodedig am gennau (gweler chwith).



Adolygu i ba raddau y mae dynodiadau SoDdGA a GNC yn gwarchod yn statudol y rhywogaethau hynny sydd wedi eu cynnwys ar restr 42 a rhywogaethau eraill sy'n peri pryder o safbwyt cadwraeth, a chanfod datrysiau i'r pryderon hynny drwy ymgynghori â CCGC a JNCC. Adolygu'r ffyrdd eraill y caiff y rhywogaethau hyn eu gwarchod (e.e. safleoedd dan berchnogaeth mudiadau eraill sy'n anelu at warchod rhywogaethau) a sicrhau bod rheolaeth briodol yn digwydd. Sicrhau bod safleoedd statudol ac ardaloedd eraill nad ydynt yn cael eu gwarchod yn statudol yn cael eu hasesu'n rheolaidd o safbwyt eu cyflwr.

Tymor byr:

Gweithred 6a

Adolygu'r gyfres o SoDdGA, y disgrifiadau, y cynlluniau rheolaeth a'r taflenni nodweddion er mwyn sicrhau bod digon o ystyriaeth yn cael ei roi i rywogaethau o blanhigion is a ffyngau sy'n peri pryder. Annog CCGC i wneud iawn am unrhyw wendidau, yn enwedig drwy roi cymorth i adnabod nodweddion sy'n gwneud y safleoedd hyn yn gymwys i gael eu dynodi.



Baeomyces placophyllus



Dibaeis baeomyces



Stereocaulon vesuvianum



Rhizocarpon furfurosum

Tymor canolig:

Gweithred 6b

Annog CCGC i ddatblygu rhaglen o waith monitro i safon gyffredin ar gyfer rhywogaethau o blanhigion is a ffyngau sy'n peri pryder o safbwyt cadwraeth ar yr holl safleoedd statudol perthnasol.

Gweithred 6c

Annog yr holl fudiadau cadwraethol sydd heb fod yn statudol i adolygu rheolaeth eu safleoedd ar gyfer y planhigion is a ffyngau sy'n peri pryder o safbwyt cadwraeth ac i sefydlu rhyw ffurf ar fonitro i safon gyffredin.

2.1 Adnabod cynefinoedd a safleoedd allweddol ar gyfer planhigion is a ffyngau yng Nghymru

Mae angen hybu'r gwaith o adnabod a gwarchod cynefinoedd allweddol ar gyfer planhigion is a ffyngau yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae dull y mudiadau statudol a gwirfoddol o warchod cynefinoedd planhigion yn dibynnu'n drwm ar yr NVC (y 'National Vegetation Classification'). Nid yw'r dull o weithio gyda NVC yn cynnig ffordd sy'n ddigon manwl i ddisgrifio'r cynefinoedd mwyaf arwyddocaol ar gyfer planhigion is a ffyngau. Unwaith i'r cynefinoedd hyn gael eu hadnabod, gallant gael eu cynnwys o fewn adolygiadau o'r canllawiau ar gyfer dewis SoDdGA yn y dyfodol, a chael eu cydnabod fel rhan o'r broses gynllunio sy'n ofynnol er mwyn creu cynlluniau gweithredu ar gyfer cynefinoedd. Mae'r NVC, ond, yn talu ychydig o sylw, os o gwbl, i'r canlynol, er engrhraifft:

- Cymunedau sy'n tyfu ar bren, ar garreg, ac sy'n gysylltiedig â mycorrhiza a phren sy'n prydus
- Glaswelltiroedd amaethyddol ar gyfer ffyngau sydd heb fod wedi cael eu gwella, neu sydd wedi cael eu lled-wella
- Afonydd, llynnoedd a phyllau mawn ar gyfer algâu dwr croyw.
- Coed ar ymyl ffyrdd a pharcdir
- Llystyfiant ar ben clogwyni sy'n cynnwys planhigion is yn bennaf
- Cymunedau metaloffytaidd sydd heb fod â llawer o blanhigion uwch

Targed 7

Hybu'r gwaith o gynnal arolwg a chreu disgrifiadau o gynefinoedd sydd o ddiddordeb cadwraethol mawr oherwydd eu planhigion is a'u ffyngau.

Tymor byr:

Gweithred 7a

Llunio rhestr o gynefinoedd 'troedle' neu arbenigol sydd heb fod wedi cael eu cynnwys yn ddigonol mewn dadansoddiadau ffytogymdeithasegol sy'n bodoli ar hyn o bryd, ynghyd â rhestr, os yn bosib, o'r rhywogaethau nodwediadol o blanhigion is a ffyngau y maen nhw'n eu cynnal.

Gweithred 7b

Annog CCGC ac asiantaethau'r gwledydd eraill i gytuno ar amserlen er mwyn cwblhau'r dansoddiad ffytogymdeithasegol o ddata sy'n bodoli ar hyn o bryd ynglyn â'r cymunedau hynny o blanhigion ar wyneb creigiau sy'n cynnwys cyfoeth o blanhigion is.

Tymor canolig

Gweithred 7c

Datblygu a gweithredu rhaglen o waith arolwg sydd wedi ei blaenoriaethu yn ôl canfyddiadau Gweithred 7a er mwyn disgrifio cymunedau o ffyngau a phlanhigion is nad ydynt wedi cael eu cynnwys o fewn yr NVC.

Gweithred 7d

Parhau i gynnal ac i bwysom am adolygiad a diweddariad o'r canllawiau ar gyfer dynodi SoDdGA, ac i bwysom hefyd am i'r disgrifiadau o'r SoDdGA gael eu newid er mwyn cyfrif am y nifer uchel o nodweddion planhigion is sydd bellach yn hysbys ac i bwysom fel bod safleoedd newydd yn cael eu dynodi os oes bylchau'n bodoli.

Rhaid seilio rheolaeth Iwyddiannus ar ymchwil awtecolegol o ansawdd uchel, yn cynnwys ymchwil ar oddefgarwch ac ymateb rhywogaethau i waith rheolaeth.

Saddle Point, ystangbwll, Sir Befnro Iliae mae angen o hyd i ddisgrifio'r cymunedau anarferol o gennau ymhliith y darnau o garreg calch.



Targed 8

Hybu rheolaeth gydnaws o gynefinoedd sy'n allweddol ar gyfer planhigion is a ffyngau drwy rannu canllawiau a chyngor.

Tymor byr:

Gweithred 8a

Defnyddio'r rhestr 'droedle' a gynhyrchwyd dan weithred 7a er mwyn cychwyn ar y gwaith o gynhyrchu llyfrynnau rheolaeth ar gyfer planhigion is a ffyngau, yn seiliedig ar eu cynefinoedd a'u troedleoedd arbennig.

Gweithred 8b

Sicrhau bod Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd yn rhoi ystyriaeth i blanhigion is a ffyngau.

Tymor canolig:

Gweithred 8c

Llunio rhestr o broblemau sy'n effeithio ar safleoedd penodol e.e. Rhododendron, planhigion dyfrol ymledol, ac adnabod y SoDdGA hynny lle mae cyngor ar gael ond lle nad yw'n arwain at reolaeth bositif.

Gweithred 8d

Cyfrannu at hyfforddiant ar gyfer rheolwyr safleoedd fel y gallant warchod planhigion is a ffyngau, gan ddefnyddio nodweddiol cynefin allweddol neu ddulliau sy'n seiliedig ar ddangosyddion cynefin/rhywogaeth.

Targed 9

Annog Asiantaeth yr Amgylchedd i barhau i ganfod ffyrdd o leihau llygredd atmosfferig ac i wella'u gallu i asesu'n gywir yr effaith y mae datblygiadau'n eu cael ar blanhigion is a ffyngau.

Tymor byr:


Gweithred 9a

Cynnig cyngor technegol, fel bo'r angen, er mwyn helpu adnabod lefelau llygredd awyr sy'n dyngedfennol o niweidiol ar gyfer y safleoedd statudol hynny sy'n bwysig ar gyfer planhigion is a ffyngau.

Gweithred 9b

Adolygu'n gyson y wybodaeth sydd ar gael ynglyn â'r effaith y gallai deunydd llygrol newydd neu wahanol mewn dŵr ei gael ar blanhigion is a ffyngau a dwyn y fath wybodaeth at sylwr' awdurdodau sy'n rheoleiddio.

Mae cynlluniau hydro-drydan bychain wedi cael eu cynnig ar gyfer rhai o'r safleoedd mwyaf pwysig ar gyfer planhigion is a chen yng Nghymru. Mae'n hanfodol cynnal asesiadau amgylcheddol manwl cyn y gellir gwneud penderfyniadau cynllunio.



Targed 10

Lleihau effaith newidiadau mewn defnydd tir ar blanhigion is a ffyngau drwy gynnig cyngor i awdurdodau cynllunio lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Tymor canolig

Gweithred 10a

Sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael o ganlyniad i gyflawni gweithrediadau 3 a 2 uchod (h.y. adnabod rhywogaethau sy'n peri pryer o safbwyt cadwraeth a hefyd eu dosbarthiad) yn cael ei ddefnyddio gan ganolfannau cofnodi lleol er mwyn sgrinio ceisiadau cynllunio a phob math arall o newid mewn defnydd tir sy'n dod i'w sylw. Gellir gwneud penderfyniadau wedyn sy'n seiliedig ar wybodaeth.

AMCAN 3:

DEFNYDDIO AMRYWIAETH PLANHIGION MEWN FFORDD GYNALIADWY

3.0 Defnydd cynaliadwy o blanhigion is a ffyngau

Mae'r defnydd cynaliadwy o fioamrywiaeth yn un o'r tair elfen o fewn y Cytundeb ar Amrywiaeth Fwydegol ar gyfer sicrhau cadwraeth lwyddiannus. Nid oes llawer o ddefnydd yn cael ei wneud, hyd y gwyddwn, o blanhigion is a ffyngau yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae ffyngau gwylt a gwymon yn cael eu casglu i'w bwyta ac mae mwsogl a chen yn cael eu casglu ar gyfer y fasnach arddwriaethol.

Tybir bod arfer o gasglu cen a ffyngau bwytadwy at ddefnydd masnachol ar gynnydd. Mae rhywfaint o ganillaw ar gael drwy'r 'Wild Mushroom Collecting Codes'. Nid oes unrhyw ganllawiau ar gael ar hyn o bryd ar gyfer casglu mwsogl. Mae'r gweithrediadau a nodir yn y strategaeth hon yn adlewyrchu'r angen brys i ymchwilio ac asesu sut y gellir casglu'n gynaliadwy, ac wedyn i gynhyrchu cod ymarfer da yn seiliedig ar hyn.

Targed II

Rhannu gwybodaeth a helpu gyda'r gwaith o baratoi codau ymarfer da er mwyn sicrhau bod planhigion is yn cael eu cynaeafu mewn ffordd gynaliadwy ar gyfer defnydd lleol a masnachol.

Tymor byr:

Gweithred IIa

Parhau i godi ymwybyddiaeth o'r pynciau hyn drwy gysylltu a thrafod gyda swyddogion troseddau bywyd gwylt.

Tymor canolig:

Gweithred IIb

Cynnal ymchwil ar effaith casglu mwsogl a chanfod ffyrdd o gasglu mwsogl mewn ffordd gynaliadwy gyda'r bwriad o ddatblygu cynllun tystysgrif.

Gweithred IIc

Cynhyrchu cod ymarfer da ar gyfer casglu bryoffytiau a chen, ar y cyd â'r Comisiwn Coedwigaeth, gyda darpariaeth ar gyfer monitro fel rhan o'r cytundeb trwyddedu.

Gweithred IId

Dosbarthu cod ymarfer da i berchnogion tir eraill sy'n caniatáu neu'n ystyried rhoi caniatâd i bobl gasglu mwsogl a chen ar eu tir.

Gweithred IIe

Adolygu a chadw llygad yn gyson ar y raddfa fasnachol o gasglu ffyngau bwytadwy yng Nghymru ac ar unrhyw waith arall sy'n digwydd mewn mannau eraill a fydd yn helpu asesu cynaladwyedd y fath gynaeafu.



Mae galw mawr am y ffyngau 'coesau glas' bwytadwy. Ar un adeg roeddent yn cael eu gwerthu mewn marchnadoedd ar hyd a lled Canolbarth Lloegr

AMCANION 4 & 5:

HYBU ADDYSG AC YMWYBYDDIAETH YNGLYN^A
AG AMRYWIAETH PLANHIGION A CHINYDDU
GALLU I WEITHREDU YN Y MAES HWN

4.0 Gallu tacsonomegol

Mae'r angen i gael cnewylllyn o arbenigedd tacsonomegol yn ganolog i'r strategaeth hon i greu dyfodol cynaladwy ar gyfer cadwraeth planhigion is a ffyngau yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'r arbenigedd hwn yn annigonol ar lefel genedlaethol ac mae'n parhau i ddirywio. Mae mycoleg, yn arbennig, mewn cyflwr argyfngus oherwydd gellid colli'r holl arbenigedd arwyddocaol yn y DU o fewn 5 mlynedd oherwydd ymddeoliad unigolion allweddol. Ar hyn o bryd, mae arbenigedd tacsonomegol yng Nghymru yn bodoli o fewn Amgueddfa Genedlaethol Cymru (AGC) – ar ffurf un arbenigwr cen, un arbenigwr ar algâu ac un arbenigwr ar fryoffytiau. Mae ychydig o arbenigedd mycolegl i'w gael o fewn Plantlife Cymru ac mae rhagor i'w ganfod ymhlið arbenigwyr gwirfoddol. Mae gofyn chwilio'n rheolaidd am gymorth ychwanegol gan Kew ar gyfer mycoleg a chan yr Amgueddfa Brydeinig a'r gerddi Botaneg yng Nghaeredin ar gyfer cennau a bryoffytiau. Mae arbenigedd ar algâu morol i'w gael o fewn Prifysgol Cymru (Bangor) ac o fewn Grŵp Gwyddor Morol CCGC.

Nid oes gan lawer o fudiadau (e.e. Cymdeithasau Bywyd Gwyllt a CCGC) y staff arbenigol na chwaith yr adnoddau i'w cyfrannu at y gwaith hwn. Oherwydd prinder adnoddau yn Kew ac yng Nghaeredin hefyd mae angen dybryd i gael mycolegydd ychwanegol o fewn Amgueddfa Genedlaethol Cymru neu yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (GFGC).

Targed 12

Sefydlu swydd barhaol ar gyfer mycolegydd cenedlaethol Cymreig o fewn mudiad priodol.

Tymor byr

Gweithred 12a

Cysylltu ag uwch reolwyr yn AGC neu GFGC er mwyn hybu'r syniad o gael swydd mycolegydd newydd.

Gweithred 12b

Defnyddio lansiad y strategaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r diffyg arbenigedd tacsonomegol fel bod y pwnc yn uwch ar yr agenda gwleidyddol.

4.1 Codi ymwybyddiaeth

Mae'r strategaeth yn anelu at godi ymwybyddiaeth ynglŷn â phlanhigion is ac mae'n adnabod nifer o weithrediadau a fyddai'n cyflawni hyn. Ond os yw'r gweithrediadau hyn i gael eu gwreddu, mae angen brys i gael swyddog cadwraeth planhigion is a ffyngau a swyddog addysg o fewn y sector wirfoddol. Dylai'r swyddi hyn gael eu hariannu'n ganolog a byddent yn gwasanaethu'r holl gymdeithasau arbenigol sy'n ymhel â phlanhigion is a ffyngau. Byddai'r swyddi hyn yn datblygu gweithgareddau a dulliau gweithredu sydd eisoes ar y gweill o fewn cymdeithasau arbenigol hyn, yn cynnwys teithiau tywys, llyfrynnau dehongli, llyfrynnau adnabod syml, sefydlu a chynnal grwpiau lleol.

Byddai rhaglen drefnus o weithgareddau addysgiadol hefyd yn cael ei chreu a byddai hon yn

cynnwys gweithdai hyfforddiant yn y maes a chefnogaeth i grwpiau lleol. Mae angen datblygu cyfleoedd hyfforddiant i Wardeiniaid ac i sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant allanol, fel y Field Studies Council, er mwyn iddynt gyflwyno planhigion is a ffyngau i blant ac oedolion ac mae angen cynnal gweithdai adnabod rhywogaethau a rheoli safleoedd ar gyfer rheolwyr tir a chadwraethwyr.

Rhaid nodi hefyd bod rhaid chwilio y tu allan i Gymru am y rhan fwyaf o waith ymgynghorol ar blanhigion is a ffyngau, oherwydd mai dim ond un mycolegydd maes ymgynghorol, a hwnnw'n rhan amser, sydd wedi bod yma tan yn ddiweddar, a dim ond un ymgynghorydd cen rhan amser sydd ar gael o hyd, a dim un ymgynghorydd broffyttau o gwbl.

Targed 13

Adnabod bylchau yn y rhagleni addysg ac ymwybyddiaeth cyhoeddus a chefnogi gweithgaredd i lenwi'r bylchau hyn drwy sefydlu cysylltiadau gyda phartneriaid. Bydd hyn yn cynnwys ymestyn cynllun prentisiaeth yr Alban i Gymru ac i gynnwys yr holl grwpiau o blanhigion is a ffyngau.

Tymor byr:

Gweithred 13a

Sefydlu swyddi dan gytundeb 3 blynedd ar gyfer swyddog cadwraeth planhigion is a ffyngau a swyddog addysg. Lleoli'r ddwy swydd hon o fewn mudiad priodol

Gweithred 13b

Hybu cyfarfodydd maes sy'n cael eu cynnal gan gymdeithasau arbenigol fel cam cyntaf hyfforddiant ar adnabod rhywogaethau.

Gweithred 13c

Sefydlu a chynnal tudalen ar wefan PLINKC i hybu cyfleoedd a gweithgareddau perthnasol ledled Cymru.

Gweithred 13d

Sefydlu cronfeydd offer mewn canolfannau maes addas fel y gallant gael eu defnyddio ar gyfer gweithdai hyfforddiant.

Aelodau y 'British Lichen Society' yn creu cofnodion ym Mrycheiniog

Gweithred 13e

Cynnwys 'ymwybyddiaeth planhigion is a ffyngau' fel rhan o hyfforddiant i reolwyr cadwraethol ynglŷn ag Ymarfer Da a'r Gyfarwyddeb Fframwaith gogyfer â Dŵr



Tymor canolig:

Gweithred 13f

Sefydlu grwpiau lleol ar draws Cymru i astudio a gweithredu ar ran bryoffyttau, cen a ffyngau.

Gweithred 13g

Gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod elfennau tacsonomegol yn cael eu cynnwys mewn cyrsiau addysgiadol.

4.2 Cyngor i wneuthurwyr polisi

Fel yr unig fforwm yng Nghymru sy'n cynnwys mudiadau sydd â diddordeb mewn cadwraeth planhigion, mae gan PLINKC ran bwysig i'w chwarae yn y gwaith o rannu gwybodaeth sy'n berthnasol i bolisiau a'r gwaith o gynghori gwneuthurwyr polisi.

Ymhlieth y pynciau hynny y gallai PLINKC ystyried cyflwyno tystiolaeth neu ymateb i ymgynghoriad yn eu cylch y mae:

- Yr effaith a grëir pan fydd cynefinoedd yn cael eu darnio, pwnc sy'n cael ei drafod drwy ddeddfwriaeth gynllunio yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA).
- Tystiolaeth ynglŷn â newid hinsawdd, sy'n cael ei drafod drwy'r rhaglen newid hinsawdd ac unrhyw ddiweddarriad o'r strategaeth Datblygiad Cynaliadwy ar gyfer Cymru.
- Tystiolaeth ynglŷn â gor-faethu (gor-droffeiddio) sy'n cael ei daclo drwy'r Gyfarwyddeb Fframwaith gogyfer â Dwr a chynlluniau amaeth-amgylcheddol.
- Tystiolaeth ynglŷn â glaw asid, fel uchod.
- Effaith cynlluniau amaeth-amgylcheddol.
- Effaith rhywogaethau estron ymledol.

Targed 14

Parhau i gyfrannu at bynciau polisi perthnasol mewn perthynas â chynllunio, newid hinsawdd, ansawdd dŵr, amaeth-amgylcheddol a rhywogaethau estron ymledol.

Tymor byr:

Gweithred 14a

Ymateb i bynciau polisi sy'n flaenoriaeth, fel bo'r angen.

Gweithred 14b

Datblygu dulliau da o gyfathrebu gydag asiantaethau er mwyn gallu rhannu cyngor priodol gyda nhw ynglŷn ag ardrawiad ecolegol wrth asesu ceisiadau cynllunio.

4.3 Cynyddu gallu

Dylai PLINKC anelu at fod yn un o'r fforymâu mwyaf llwyddiannus o ran cyflawni gwaith cadwraeth penodol a phriodol ar gyfer planhigion a ffyngau ar bob lefel – o greu polisi i wneud gwaith cadwraethol ac addysgiadol allan yn y maes.

Targed 15

Sicrhau bod y strategaeth hon yn cael ei chydlyn a'i chyflawni'n llawn drwy benodi swyddog gweithredu a fydd wedi ei ariannu gan gyrrf a mudiadau priodol o fewn a thu hwnt i aelodaeth PLINKC.

Tymor byr:

Gweithred 15a

Datblygu cais ariannu ar gyfer Swyddog Gweithredu Strategaeth fel y gellir mynd ag ef at gyrrf a mudiadau priodol.

CYFEIRIADAU

- Brodie, J., Tittley, I., John, D. & Holmes, M. (2005). *Important Plant Areas for marine algae: determining which species are rare*. The Phycologist 68:3-5.
- Church, J.M., Coppins, B.J., Gilbert, O.J., James, P.W. & Stewart, N.F. (1996). *Red Data Books of Britain and Ireland: Mosses and Liverworts*. JNCC, Peterborough.
- Church, J.M., Hodgetts, N.G., Preston, C.D. & Stewart, N.F. (2004). *Red Data Books of Britain and Ireland: Lichens. Volume 1: Britain*. JNCC, Peterborough.
- Evans, S., Marren, P. & Harper, M. (2001). *Important Fungus Areas: a provisional assessment of the best sites for fungi in the United Kingdom*. Plantlife International, Salisbury.
- Hardy, G. & Guiry, M.D. (2003). *A check-list and atlas of the seaweeds of Britain and Ireland*. British Phycological Society, London.
- Hill, M.O., Preston, C.D. & Smith, A.J.E. (1991, 1992, 1993). *Atlas of Bryophytes of Britain and Ireland*, vols 1-3. Harley Books, Colchester.
- Moore, J.A. 1986. *Charophytes of Great Britain and Ireland*. BSBI Handbook no. 5. London: Botanical Society of the British Isles.
- Seaward, M.R.D. (Ed.) (1995, 1996, 1998, 1999, 2000, 2001). *Lichen Atlas of the British Isles. Fascicles 1-6*. The British Lichen Society, London.
- Stewart, N.F. (2004). *Important Stonewort Areas of the United Kingdom*. Plantlife International, Salisbury.
- UK Biodiversity Action Plan. Manylion i'w cael ar www.ukbap.org.uk.

TALFYRIADAU:

AA	Asiantaeth yr Amgylchedd
AGC	Amgueddfa Genedlaethol Cymru
BAP	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
BBS	British Bryological Society
BBSRC	Biotechnology and Biological Sciences Research Council
BLS	British Lichen Society
BMS	British Mycological Society
BPS	British Phycological Society
BRG	Canolfan Cofnodion Bywydegol
BSBI	Botanical Society of the British Isles
CBD	Cytundeb ar Amrywiaeth Bywydegol
CC	Comisiwn Coedwigaeth
CCGC	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
GFGC	Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
GNC	Gwarchodfeydd Natur Genedlaethol
GSPC	Global Strategy for Plant Conservation
JNCC	Cydbyllgor Cadwraeth Natur
LICC	Llywodraeth Cynulliad Cymru
NBN	National Biodiversity Network
NERC	Natural Environment Research Council
NVC	National Vegetation Classification
PBC	Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
PCE	Parc Cenedlaethol Eryri
PDC	Plant Diversity Challenge
PLINKC	Plant Link Cymru
RDB	Rhestrau Data Coch
RSPB	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
SDdGA	Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
SNH	Scottish Natural Heritage
TBDB	Threatened Bryophytes Database
UKBAP	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU
YG	Ymddiriedolaeth Genedlaethol

5.0 Crynodeb o'r gweithrediadau

Amcan	Targed	Gweithred	Cefyl blaen PLINKC	Aelodau PLINKC fydd yn chwarae rhan	Partneriaid o blith llywodraeth ac asiantaethau nad ydynt yn aelodau PLINKC	Amsorlen
I: Deal a chofnodi'r amrywiaeth o blanhigion	Targed 1 Dylai mapiau dosbarthiad o'r holl blanhigion is a'r ffyngau yng Nghymru fod yn hygrych ac yn gyfredol a dylai'r mapio fod wedi digwydd i lefel 10km, fan lleiaf. Drwy briodoli dosbarthiadau dyddiad, fesul degawd, i'r cofnodion map fe ddylai fod yn bosib gweld tueddiadau yn nosbarthiad rhywogaethau.	Cyfreolol Gweithgaredd 1a Sicrhau, drwy Partneriaeth y Canolfannau Cofnodi Cymreig, bod cyrundebau yn eu lle i gyfnewid data a bod data yn cael ei gyfnewid rhwng y Canolfannau Cofnodi Cymreig a'r cynlluniau cenedlaethol ar gyfer cofnodi planhigion is a ffyngau Gweithgaredd 1b Adnabod bylchau yn y data a hybu gwaith arolwg maes i'w llenwi.	Cymdeithasau arbenigol	cymdeithasau arbenigol	Partneriaeth Canolfannau Cofnodi Cymru	Parhaus
		Tymor byr Gweithgaredd 1c Datblygu rhestr o brosiectau a chwilio am arian er mwyn sicrhau bod yr holl gofnodion o blanhigion is a ffyngau yn cael eu casglu'n effeithiol o'r holl wahanol ffynonellau lle maen nhw'n llechu ar hyn o bryd, ac wedyn creu mapiau dosbarthiad o blanhigion is yng Nghymru a fydd ar gael drwy borth yr NBN.	CCGC	Holl aelodau PLINKC	JUCC, JNCC & Partneriaeth Canolfannau Cofnodi Cymru	2009-11
		Gweithred 1d Adnabod bylchau yn y data a pharhau i wneud gwaith maes i lenwir rhain e.e. glaswelltiroedd capiau cwyrr a ffyngau mewn coedwigoedd deri lleol ar gyfer planhigion is a ffyngau sydd wedi eu hintegreiddio'n dda ac i sicrhau bod y cyllid ar gyfer y rhain yn ddiogel ac yn ddigonol.	Cymdeithasau arbenigol	Cymdeithasau arbenigol, CCGC, YG ac AGC	Cymdeithasau arbenigol, Canolfannau cofnodi lleol a CCGC	Parhaus
		Gweithred 1e Datblygu data-basau cenedlaethol neu ddatabasau lleol ar gyfer planhigion is a ffyngau sydd wedi eu hintegreiddio'n dda ac i sicrhau bod y cyllid ar gyfer y rhain yn ddiogel ac yn ddigonol.	CCGC	Cymdeithasau arbenigol a CCGC	JNCC, BRC Partneriaeth Canolfannau Cofnodi Cymru	Parhaus

Amcan	Targed	Gweithred	Cefyl blaen PLINKC	Aelodau PLINKC fydd yn chwarae rhan	Partneriaid o blith llywodraeth ac asiantaethau nad ydynt yn aeledau PLINKC	Amserlen
		Tymor byr Gweithred 2a Chwilio am arian o'r llywodraeth ganolog a'r asiantaethau statudol, ac am gefnogaeth gan gyrrf gwirfoddol a chymdeithasau arbenigol, er mwyn datblygu rhaglen ariolwg flynyddol a fydd yn ei gwneud hi'n bosib dweddaru neu gwblhau bas- data sy'n cynnwys gwybodeth fanwl am safleoedd - gyda'r bwriad o'i gwneud hi'n rhwydd adnabod y safleoedd hynny yng Nghymru sy'n cynnal yr holl rywogaethau o blanhigion is a ffyngau sy'n peri pryder o safbwyt cadwraeth ac i adnabod newidiadau a thuediadau ym maint y poblogaethau ar y safleoedd hynny.	Cymdeithasau arbenigol a CCGC	Cymdeithasau arbenigol a CCGC	JNCC, LICC & Chyff Cadwraeth Gwirfoddol	Parhaus
		Tymor canolig Gweithred 2b Adnabod mudiad(au) neu sefydliad(au) sydd â'r gallu i gynnal datafasau sy'n cynnwys lleoliadau'r rywogaethau hynny o blanhigion is a ffyngau sy'n peri pryder o safbwyt cadwraeth a sicrhau cyllid yn tymor hir ar gyfer y prosiect(au).	Plantlife	Cymdeithasau arbenigol, AGC a CCGC	2009-11	
		Cyfreol: Gweithred 3a Cefnogir 'British Lichen Society' gyda'r gwaith o adolygu Rhestr Goch o gennau Frydeining a chefnogir 'British Mycological Society' gyda'r gwaith o gyoeddi Rhestr Data Coch o facroffyngau. Tymor Byr: Gweithred 3b Anog pwylgorau sefydlog i gael eu sefydlu a'u cynnal ar lefel DU er mwyn datblygu a diweddaru'n gyson y Rhestrau Coch ar gyfer planhigion is a ffyngau, gyda digon o adnoddau i gynnali gwasanaeth gwybodeth fydd eang drwy gyfrwng y we ac i gyhoeddi data fel bo'r angen.	BMS & BLS	CCGC, BLS & BMS	2009	JNCC

Anean	Targed	Gweithred	Ceffyl blaen PLINKC	Aelodau PLINKC fydd yn chwarear hanner	Partneriaid o blith llywodraeth ac asiantaethau nad ydnt yn aelodau PLINKC	Amserlen	
	Targed 4 Datblygu a chynnal rhestr gynhoeddus o rywogaethau planhigion is a ffyngau sy'n perni prider o safbwyt cadwraeth ar lefel genedlaethol ac is-sirol o fewn Cymru.	Tymor byr: Gweithred 4a Dangos ymarferoldeb y fath restrau drwy greu rhestr Gymreig genedlaethol ar gyfer llysiau afu a 3 rhestr is-sirol. Tymor canolig: Gweithred 4b Datblygu rhestrau Cenedlaethol Cymreig ar gyfer yr holl fryffyrâu, cennau, macrofyngau, ffyngau cawod, ffyngau penddu, rhawn yr ebol a'r algâu morol mwy o faint a chymhyrchu rhestrau is-sirol ar gyfer y grwpiau hyn ar gyfer hanner yr is-siroedd yng Nghymru.	Plantlife & BBS BBS, BLS, BMS, BSBI & BPS	Plantlife & BBS BBS, BLS, BMS, BSBI, BPS & AGC	2009-13	2009	
	2: Gwarchod yr amrywiaeth o blanhigion	Targed 5 Cyfrannu at y gwaith o adnabod a gwarchod rhywogaethau sydd o bwysigrwydd pennaf ar gyfer gwarchod Bioamrywiaeth yng Nghymru. Cynngi cyngor bob tro y bydd adolygiad BAP yn digwydd, a chynnid cyngor ynglyn â'r blaenoriaethau ar gyfer aroliwg ac ymchwil drwy gydol y cylch 3 blynedd o adrodd ar gynnydd mewn perthnas â BAP.	Tymor byr: Gweithred 5a Hybu cadwraeth rhywogaethau Adran 42 drwy eu grwpio, lle bo'n bosibl, yn ôl cynfeinioedd ac yna datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer clwstwr o rhywogaethau. Hefyd, cynorthwyo gyda'r gwaith o ddatablygu, adolygu a gwreddu cynlluniau gweithredu ar gyfer rhywogaethau unigol o blanhigion is a ffyngau BAP. Tymor canolig: Gweithred 5b Cadw llygad ar statws cyfredol planhigion is a ffyngau yng Nghymru, ac adolygu hyn yn barhaus, er mwyn gallu cyfrannu gwybodaeth at i adolygiad o Adran 42 yn y dyfodol ac i helpur gwaith o flaenoriaethu o safbwyt cadwraeth ac ariamu.	CCGC Holl aelodau	LICC Holl aelodau	2009-11	Parhaus

Amcan	Targed	Gweithred	Cefyl blaen PLINKC	Aelodau PLINKC fydd yn chwarae rhan	Partneriaid o blith llywodraeth ac asiantaethau nad ydnt yn aelodau PLINKC	Amserlen	
	Targed 6 Adolygu i ba raddau y mae dynodiadau SoDdGA a GNC yn gwarchod yn statudol y rhywogaethau hynny sydd wedi eu cynnwys ar restr 42 a rhywogaethau eraill sy'n peri pryder o safbwyt cadwraeth, a chanfod datrysiau i'r pryderon hynny drwy ymgynghori â CCGC a JNCC. Adolygur ffyrrd eraill y caiff y rhywogaethau hyn eu gwarchod (e.e. perchnogaeth y safleoedd gan fudiadau eraill sy'n anelu at warchod rhywogaethau) a sicrhau bod rheolaeth briodol yn digwydd. Sicrhau bod safleoedd statudol ac ardaloedd eraill nad ydnt yn cael eu gwarchod yn statudol yn cael eu hasesu'n rheolaidd o safbwyt eu cyflwr.	Tymor byr: Gweithred 6a Adolygu'r gyfres o SoDdGA, y disgrifiadau, y cynlluniau rheolaeth a'r taflienni nodweddiann er mwyn sicrhau bod digon o ystyriath yn cael ei roi i rywogaethau o blanhigion is a ffyngau sy'n peri pryder. Annog CCGC i wneud iawn am unrhyw wendidau yn enwedig drwy roi cymorth i adhabod nodweddiann sy'n gwneud y safleoedd hyn yn gymwys i gael eu dynodi.	CCGC & Plantlife	CCW, Plantlife & Chymdeithasau arbenigol	IUC	2009-11	
	Targed 6b Annog CCGC i ddathlygu rhaglen o waith monitro i safon gyffredin ar gyfer rhywogaethau o blanhigion is a ffyngau sy'n peri pryder o safbwyt cadwraeth ar yr holl safleoedd statudol perthnasol.	Tymor canolig: Gweithred 6b Annog CCGC i ddathlygu rhaglen o waith monitro i safon gyffredin ar gyfer rhywogaethau o blanhigion is a ffyngau sy'n peri pryder o safbwyt cadwraeth ar yr holl safleoedd statudol perthnasol.	CCGC	CCGC & Chymdeithasau arbenigol	CCGC & Chymdeithasau arbenigol	Cyrff cadwraeth gwirfoddol	2009-13
	Gweithred 6c Annog yr holl fudiadau cadwraethol sydd heb fod yn statudol i adolygu rheolaeth eu safleoedd ar gyfer y planhigion is a ffyngau sy'n peri pryder o safbwyt cadwraeth ac i sefydlu rhyw ffurf ar fonitro i safon gyffredin.		NT,WBG, AGC & Chymdeithasau arbenigol	NT,WBG, AGC & Chymdeithasau arbenigol			2011-15

Amcan	Targed	Gweithred	Cefyl blaen PLINKC	Aelodau PLINKC fydd yn chwarae rhan	Partneriaid o blith llywodraeth ac asiantaethau nad ydnt yn aelodau PLINKC	Amserlen	
		Tymor byr: Gweithred 7a Llunio rhestr o gynefinfoedd 'troedle' neu arbenigol sydd heb fod wedi cael eu cynnwys yn ddigonol mewn dadansoddiadau ffytogymdeithasegol sy'n bodoli ar hyn o bryd, ynghyd â rhestr, os yn bosib, o'r rhywogaethau nodweddiadol o blanhigion is a ffyngau y maen nhw'n eu cynnal.	Cymdeithasau arbenigol	Cymdeithasau arbenigol, CCGC, AGC, YG & Parc. Cen Eryri.	SNH, NE & JNCC	2010	
	Targed 7 Hybu'r gwaith o gynnal arolwg a chreu disgrifadau o gynefinfoedd sydd o ddiddordeb cadwraethol mawr oherwydd eu planhigion is a'u ffyngau.	Tymor byr: Gweithred 7b Anog CCGC ac asiantaethau'r gwledydd eraill i gytuno ar amserlen er mwyn cwblhau'r dansoddiad ffytogymdeithasegol o ddata sy'n bodoli ar hyn o bryd yngŷn â chymunedau planhigion ar wneb creigiau sy'n cynnwys cyfeith o blanhigion is.	AGC & Cymdeithasau arbenigol	CCGC & Chymdeithasau arbenigol	CCGC, AGC & Cymdeithasau Arbenigol	JNCC & WAG	2009
		Tymor canolig Gweithred 7c Datbygu a gweithredu rhaglen o waith arolwg sydd wedi ei blaenoriaethu yn ôl canfyddiadau Gweithred 7a er mwyn disgrifio cymunedau o ffyngau a phlanhigion is nad ydnt wedi cael eu cynnwys o fewn yr NVC.	Cymdeithasau arbenigol	Cymdeithasau arbenigol	Cymdeithasau arbenigol	Cymdeithasau arbenigol & CCGC	2011-15
		Gweithred 7d Parhau i gynnali ac i bwys o am addolygiad a diweddariad o'r canllawiau ar gyfer dynodi SoDdGA, ac i bwys o hefyd am i'r disgrifiadau o'r SoDdGA gael eu newid er mwyn cyfrif am y nifer uchel o nodweddion planhigion is sydd bellach yn hysbys ac i bwys o fel bod safleoedd newydd yn cael eu dynodi os oes bylchau'n bodoli.	Cymdeithasau arbenigol & CCGC			Cymdeithasau arbenigol & CCGC	2010-15

Amcan	Targed	Gweithred	Cefyl blaen PLINKC	Aelodau PLINKC fydd yn chwarae rhan	Partneriaid o blith llywodraeth ac asiantaethau nad ydnt yn aelodau PLINKC	Amserlen	
		Tymor byr: Gweithred 8a Hŷbu rheolaeth gydnaws o gynfinoedd sy'n allweddol ar gyfer planhigion is a ffyngau drwy ranau canllawiau a chyngor: Gweithred 8b Sicrhau bod Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd yn rhoi ystyriaeth i blanhigion is a ffyngau.	Defnyddio'r rhestr 'droedol' a gynhyrchyd dan weithred 7a er mwyn cychwyn ar y gwaith o gynhyrchu llyfrynnau rheolaeth ar gyfer planhigion is a ffyngau, yn seiliedig ar eu cynfinoedd a'u troedleoedd arbennig. Tymor canolig: Gweithred 8c Lluoio rhestr o broblemau sy'n effeithio ar safleoedd penodol e.e. Rhododendron, planhigion dyfrol ymledol, ac adnabod y SoDdGA hyunny lle mae cyngor ar gael ond lle nad yw'n arwain at reolaeth bositif.	Plantlife & CCGC	Cymdeithasau arbenigol	2010-15	
		Tymor byr: Gweithred 8d Cyfrannu at hyfforddiant ar gyfer rheolwyr safleoedd fel y gallant warchod planhigion is a ffyngau, gan ddefnyddio nodweddion cynfin allweddol neu ddulliau sy'n seiliedig ar ddangosyddion cynfin/rhywogaeth.	Holl aelodau PLINKC ar y grwpiau cynfin	CCGC	Holl aelodau PLINKC	AA & CC	
		Tymor byr: Gweithred 9a Cynig cyngor technegol, fel bo'r angen, er mwyn helpu adnabod lefelau llygredd awyr sy'n dyngedfennol o niweidiol ar gyfer y safleoedd statudol hyunny sy'n bwysig ar gyfer planhigion is a ffyngau.	CRC & Plantlife	Holl aelodau PLINKC	Parhaus	2011	
		Tymor byr: Gweithred 9b Adolygu'n gysylltiedd sydd ar gael ynglyn â'r effaith y gallai deunydd llygrol newydd neu wahanol mewn dŵr ei gael ar blanhigion is a ffyngau a dwyn y fach wybodaeth at sylw'r awdurdodau sy'n rheoleiddio.	CCGC & Cymdeithasau arbenigol	CCGC & Cymdeithasau arbenigol	Holl aelodau PLINKC	AA & Awdurdodau lleol	Parhaus

Amcan	Targed	Gweithred	Ceffyl blaen PLINKC	Aelodau PLINKC fydd yn chwarae rhan	Partneriaid o blith llywodraeth ac asiantaethau nad ydnt yn aelodau PLINKC	Amserlen
	Targed 10 Liebau effaith newidiadau mewn defnydd tir ar blanhigion is a ffyngau drwy gynnig cyngor i awdurdodau cynllunio lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru.	Tymor canolig Gweithred 10a Sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael o ganlyniad i gyflawni gweithrediadau 3 a 2 uchnod (h.y. adnabod rhywogaethau sy'n perni pryder o safbwyt cadwraeth a hefyd eu dosbarthiad) yn cael ei ddefnyddio gan ganolfannau cofnodi lleol er mwyn sgrinio ceisiadau cyllunio a phob math arall o newid mewn defnydd tir sy'n dod i'w sylw. Gellir gwneud penderfyniadau wedyn sy'n seiliedig ar wybodaeth.	CCGC & Cymdeithasau arbenigol	CCGC & Cymdeithasau arbenigol	Awdurdodau lleol, LIICC, CC, AA & Partneriaeth CCC	parhaus
	3: Defnyddio'r amrywiaeth o blanhigion mewn ffordd gynaliadwy	Targed 11 Rhamnu gwybodaeth a helpu gyda'r gwaith o baratoi codau ymarfer da er mwyn sicrhau bod planhigion is yn cael eu cynaeafu mewn ffordd gynaliadwy ar gyfer defnydd lleol a masnachol.	Tymor byr: Gweithred 11a Parhau i godi ymwybyddiaeth o'r pynciau hyn drwy gysylltu a thraford yzda swyddogion troseddau bywyd gwyllt. Tymor canolig: Gweithred 11b Cynnal ymchwil ar effaith casglu mwsogl a chanfod ffordd o gasglu mwsogl mewn ffordd gynaliadwy gyda'r bwriad o ddatblygu cynllun tystysgrif.	CCGC	Holl aelodau PLINKC	2009-10
		Gweithred 11c Cynhyrchu cod ymarfer da ar gyfer casglu bryoffyrâu a chen, ar y cyd â'r Comisiwn Coedwigiaeth, gyda darpariaeth ar gyfer monitro fel rhan o'r cytundeb drwyddedu.	Plantlife& BBS	Plantlife& BBS	CC & Awdurdodau sy'n rholi tystysgrifau coedwigiaeth	2010
		Gweithred 11d Dosbarthu cod ymarfer da i berchnogion tir eraill sy'n caniatâu neu'n ystyried rhoi caniatâd i bobl gasglu mwsogl a chen ar eu tir.	Plantlife & BBS	Plantlife& BBS	CC	2011
		Gweithred 11e Adolygu a chadw llygad yn gyslon ar y raddfa fasnachol o gasglu ffyngau bwytadwy yng Nghymru ac ar unrhyw waith arall sy'n digwydd mewn mannau eraill a fydd yn helpu asesu cynaladwyedd y fath gynaefu.	BMS	Plantlife& BBS	BMS & Cyrrf gwirfoddol	CC
						parhaus

Ancan	Targed	Gweithred	Ceffyl blaen PLINKC	Aelodau PLINKC fydd yn chwarae rhan	Partneriaid o blith llywodraeth ac asiantaethau nad ydynt yn aelodau PLINKC	Amserlen
4: Hybu addysg ac ymwybyddiaeth ynglyn ag amrywiaeth planhigion	Targed 12 Sefyllu swydd barhaol ar gyfer mycolegyd cenedlaethol Cymreig o fewn mudiad priodol.	Tymor byr Gweithred 12a Cysylltu ag uwch reolwyr yn AGC neu GFGC er mwyn hybu'r syniad o gael swydd mycolegydd newydd. Gweithred 12b Defnyddio lansiad y strategaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r diffyg arbenigedd tacsonomegol fel bod y pwnc yn uwch ar yr agenda gwleidyddol.	???	BMS & BLS	LICC	2009
	Targed 13 Adnabod bylchau yn y rhagleni addysg ac ymwybyddiaeth gyoeddus a chefnogi gweithgaredd i lenwir' bylchau hyn drwy sefydlu cysylltiadau gyda phartneriaid. Bydd hyn yn cynnwys ymestyn cynllun prentisiaeth yr Alban i Gymru ac i gynnwys yr holl grwpiau o blanhigion is a ffyngau.	Tymor byr: Gweithred 13a Sefyllu swyddi dan gytundeb 3 blynedd ar gyfer swyddog cadwraeth planhigion is a ffyngau a swyddog addysg. Lleoli'r ddwy swydd hon o fewn mudiad priodol. Gweithred 13b Hybu cyfarfod ydod maes sy'n cael eu cynnal gan gymdeithasau arbenigol fel cam cyntaf hyfforddiant ar adnabod rhywogaethau. Gweithred 13c Sefyllu a chynnal tudalen ar wefan PLINKC i hybu cyfeleodd a gweithgareddau perthnasol ledled Cymru. Gweithred 13d Sefyllu cronfeydd offer mewn canolfannau maes addas fel y gallant gael eu defnyddio ar gyfer gweithdai hyfforddiant.	CCW & Plantlife	Cymdeithasau arbenigol a mudiadau anllywodraethol	Cymdeithasau arbenigol	2010
		Gweithred 13e Cynnwys 'ymwybyddiaeth planhigion is a ffyngau' fel rhan o hyfforddiant i reolwyr cadwraethol ynglŷn ag Ymarfer Da air Gyfarwydddeb Fframwaith gogyfer à Dŵr.	Plantlife	Holl aelodau PLINKC	Prifysgolion	parhaus
		Tymor canolig: Gweithred 13f Sefyllu grwpiau lleol ar draws Cymru i astudio a gweithredu ar ran bryofftau, cen a ffyngau.		Holl aelodau PLINKC	AA	2010-12
		Gweithred 13g Gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod elfennau tacsonomegol yn cael eu cynnwys mewn cyrstiau addysgiadol.		Cymdeithasau arbenigol & AGC	Cymdeithasau arbenigol	parhaus
					Cymdeithasau arbenigol	2010-15

Amcan	Targed	Gweithred	Ceffyl blaen PLINKC	Aelodau PLINKC fydd yn chwarae rhan	Partneriaid o blith llywodraeth ac asiantaethau nad ydnt yn aelodau PLINKC	Amserlen
	Targed 14 Parhau i gyfrannu at bynciau polisi perthnasol mewn perthynas â chynllunio, newid hinsawdd, ansawdd dŵr; amaeith-amgylcheddol a rhywogaethau estron ymledol.	Tymor byr: Gweithred 14a Ymateb i bynciau polisi sy'n flaenorïaeth, fel bo'r angen. Gweithred 14b Datblygu dulliau da o gyfathrebu gydag asiantaethau er mwyn gallu rhannu cyngor priodol gyda nhw ynglŷn ag ardraviad ecolegol wrth aseu ceisiadau cynllunio.	Holl aelodau PLINKC Cymdeithasau arbenigol, mudiadau anlywodraethol a CCGC	Holl aelodau PLINKC Holl aelodau PLINKC	LICC, CC, AA & Awdurdodau Lleol	parhaus parhaus
	Targed 15 Sierhau bod y strategaeth hon yn cael ei chydlyn u'i chyflawni'n llawn drwy benodi swyddog gweithredu a fydd wedi ei ariannu gan gyrra a mudiadau priodol o fewn a thu hwn i aelodaeth PLINKC.	Tymor byr: Gweithred 15a Datblygu cais ariannu ar gyfer Swyddog Gweithredu Strategaeth fel y gellir mynd ag ef at gyrrf a mudiadau priodol.	Plantlife & CCGC	Plantlife & CCGC	2010-11	

